**Dyddiad cyhoeddi:** 5 Gorffennaf 2021

## Cais Rhyddid Gwybodaeth

Rydym ni'n ysgrifennu atoch i ymateb i'r Cais Rhyddid Gwybodaeth a wnaethoch. Mae eich cais wedi cael ei ystyried yn unol â gofynion y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a'n polisi mynediad at wybodaeth.

## Atebion i'ch Cwestiynau

**Yn ystod y cyfnod 1/1/2015 i 31/5/2021, sawl gwaith fu'n rhaid cau rheilffordd Dyffryn Conwy am ran o ddiwrnod neu fwy oherwydd llifogydd (1)? Yn ystod y cyfnod hwn, sawl diwrnod a gollwyd oherwydd llifogydd (2)?**

Nid yw data cyn mis Hydref 2018, pan oedd Trenau Arriva Cymru yn gweithredu masnachfraint Cymru a'r Gororau, ar gael i TrC. O'r herwydd, dim ond o fis Hydref 2018 ymlaen y gallwn ddarparu data.

Gweler y daenlen amgaeedig dan y teitl 'Conwy Valley line – Flooding Cancellations'. Oherwydd y ffordd mae ein gwybodaeth yn cael ei chofnodi, mae'r daenlen hon yn rhoi'r atebion i gwestiynau 1 a 2. Yn unol â gofynion y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, mae fformat y daenlen yn sylfaenol, a bydd angen i chi ehangu lled y colofnau i weld y data. Sylwch mai dim ond un o'r rhesymau posibl dros y methiant hwn yw llifogydd ar y diwrnodau pan fo canslo'n cael ei briodoli i 'bwyntiau wedi torri' (nid ydym yn gallu nodi'r rheswm oherwydd y ffordd mae data'n cael ei gofnodi ar gyfer y math hwn o ganslo).

**Yn ystod y cyfnod hwn, faint mae TrC wedi'i wario ar (a) adfer/atgyweirio'r difrod a achoswyd gan lifogydd a (b) atal llifogydd yn y dyfodol (3)?**

Nid yw TrC yn cadw'r wybodaeth hon gan fod yr ased seilwaith hwn yn eiddo i Network Rail. O'r herwydd, rydym yn eich cynghori i ailgyfeirio'r ymholiad hwn i Network Rail gan ddefnyddio'r cyfeiriad canlynol: FOI@networkrail.co.uk

**Mewn blwyddyn arferol heb covid, faint o gymhorthdal y flwyddyn mae TrC yn ei roi i linell Dyffryn Conwy (4)?**

Nid yw TrC yn cadw'r wybodaeth hon. Nid ydym yn casglu ystadegau sy'n adlewyrchu'r cymhorthdal a ddyrannwyd fesul llinell.

Gobeithio y bydd yr wybodaeth hon o ddefnydd i chi.

Yn gywir,

## Trafnidiaeth Cymru

TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

**Hawliau Apelio**

Os ydych chi'n anhapus â'r ffordd y cafodd eich cais ei drin a'ch bod chi'n dymuno gwneud cwyn neu wneud cais am adolygiad o'n penderfyniad, ysgrifennwch at y Pennaeth Rhyddid Gwybodaeth naill ai yn Trafnidiaeth Cymru, 3 Llys Cadwyn, Pontypridd, CF37 4TH neu freedomofinformation@tfw.wales. Rhaid i'ch cais gael ei gyflwyno o fewn 40 diwrnod gwaith i dderbyn y llythyr hwn. Os na fyddwch chi'n fodlon â chanlyniad yr adolygiad mewnol, mae gennych hawl i wneud cais yn uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad.

Gallwch chi gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, Wycliffe House, Water Lane, Wilmslow, Swydd Gaer, SK9 5AF neu gallwch chi gysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth drwy adran 'Gwneud Cwyn' eu gwefan ar y ddolen hon: https:/ico.org.uk/make-a-complaint/

Yr adran berthnasol i'w dewis fydd "Gwybodaeth Swyddogol neu Gyhoeddus".